"Dwy ochr i'r wlad – dewch i'r wledd"

Dewch ynghyd i

EISTEDDFOD FLYNYDDOL PANDY TUDUR

1856 – 2025

a gynhelir yng

Nghanolfan Addysg Bro Cernyw, Llangernyw

DYDD LLUN Y PASG

Ebrill 21ain, 2025

Ym mil wyth pum deg chwech goleuwyd
Cannwyll fechan o ddiwylliant;
Ei gwawl a bontiodd gant a hanner
O flynyddoedd mawr eu llwyddiant.

<u>Beirniaid:</u>

Cerdd, Cerdd Dant ac Offerynnol	Sioned Terrry, Towyn, Abergele
Llefaru	Andrea Parry, Y Bala
Llenyddiaeth a Barddoniaeth	Ffion Gwen Williams, Llannefydd
Cyfeilydd	Tudur Jones F.R.C.O, Eirianell, 5 Pier Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 0AU Ffôn: 07713 695177/ 01654710314
Arweinyddion:	Iona Williams, Prysor Williams

Y CYFARFOD I DDECHRAU YN BRYDLON
AM <u>12.00</u>

Tâl mynediad: £5 i oedolion. Plant dan 16 oed am ddim.

<u>DARPERIR YMBORTH</u>

Swyddogion:

Pwyllgor Gwaith: Sara Thomas, Elwen Owen, Lowri Williams, Rhian Williams, Glenna Williams, Mererid Jones, Mathonwy Ifan, Gwawr Davies, Beryl Griffiths

Cadeirydd: Mathonwy Ifan, Pandy Tudur

Trysorydd: Idris Owen, Glan Conwy

Ysgrifennydd: Elin Williams, Pen y Fron, Gwytherin (07760296186; eisteddfodpasg@gmail.com)

Addurno'r Llwyfan: Glenna Williams, Llangernyw

Gofalu am y Te: Merched Pandy Tudur

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad at yr Eisteddfod eleni gan:	
Cronfa Bro Cernyw	£750
Cronfa'r Degwm - Cyngor Sir Conwy	£150
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a'i cyfeillion	£239 (2024)
Gwenda Vaughan	Tuag at wobrau'r plant lleiaf

Cerddoriaeth

* Caniateir cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod yn UNIG ar gyfer pob cystadleuaeth ar wahan i'r cystadlaethau offerynnol a phartïon.
* Disgwylir i'r cystadleuwyr ddarparu copi i'r beirniad.

1. Unawd Derbyn ac Iau: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £3, £2, £1
2. Unawd Bl. 1 a 2: *'Y Lili Wen Fach'*, Daniel Protheroe — Gwobrau: £3, £2, £1
3. Unawd Bl. 3 a 4: *'Hufen Ia'*, Beti Rhys — Gwobrau: £4, £3, £2
4. Unawd Bl. 5 a 6: *'Y Gwanwyn'*, Rhys Jones — Gwobrau: £4, £3, £2
5. Unawd Bl. 7 i 9: Merched *'Gwisgoedd Nef'*, Karl Jenkins
   Bechgyn - *'Nant y Mynydd'*, D. Vaughan Thomas
   Gwobrau: £8, £6, £4
6. Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau: *'Y Fasged Wyau'* — Gwobrau: £4, £3, £2
7. Unawd Alaw Werin Bl.7 - 9 : 'Hunan Ddewisiad' — Gwobrau: £8, £6, £4
8. Deuawd Bl 6 ac iau: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £4, £3
9. Deuawd Bl .7-9: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £8, £6, £4
10. Parti Canu Bl. 9 ac iau: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £12, £7
11. Unawd Bl 10-13: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £20, £15, £10
12. Unawd 19-25 oed: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: Tlws £20, £15, £10
    (Tlws yn rhoddedig gan Gôr Rhuthun a'r Cylch, er cof am Iona Coetmor i'w chadw am flwyddyn)
13. Unawd Alaw Werin dros 15 oed: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £20, £15, £10
14. Dan 19 oed: Unawd allan o Sioe Gerdd (i'w chanu yn Gymraeg)
    Gwobrau: £20, £15, £10
15. Dros 19 oed: Unawd allan o Sioe Gerdd (i'w chanu yn Gymraeg)
    Gwobrau: £20, £15, £10
16. Deuawd, Triawd neu bedwarawd dros 15 oed: Hunan Ddewisiad
    Gwobrau: £20, £15, £10
17. Prif Unawd: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £40, £20, £15
18. Unawd Gymraeg: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £20, £15, £10
19. Unawd dros 60 oed: Unrhyw Emyn Dôn — Gwobrau: £15, £10, £5
20. Parti neu gôr – Meibion, Merched neu Gymysg
    Hunan Ddewisiad – cyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hwy na 10 munud.
    Gwobrau: £80, £60, £40

Offerynnol

21. Unawd unrhyw offeryn Bl. 6 ac iau: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £4, £3, £2
22. Unawd unrhyw offeryn Bl. 7-9: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £8, £6, £4
23. Unawd unrhyw offeryn dros 15 oed: Hunan Ddewisiad — Gwobrau: £20, £15, £10

Cerdd Dant

24.	Unawd Bl. 2 ac iau: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £3, £2, £1
25.	Unawd Bl. 3 a 4: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £4, £3, £2
26.	Unawd Bl. 5 a 6: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £4, £3, £2
27.	Unawd Bl. 7 - 9: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £8, £6, £4
28.	Unawd Cerdd Dant dros 15 oed: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £20, £15, £10

Llefaru

29.	Derbyn ac Iau: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £3, £2, £1
30.	Bl.2 ac Iau: '*Cwyn y ci*', Ceri Wyn Jones	Gwobrau: £3, £2, £1
31.	Bl. 3 a 4: *'Mae'r byd, fel mae, yn well!'*, Mererid Hopwood	Gwobrau: £4, £3, £2
32.	Bl. 5 a 6: '*Rwy'n gwybod*', Meirion MacIntyre Huws	Gwobrau: £4, £3, £2
33.	Bl. 7 - 9: '*Draig Wen, Draig Goch*', Myrddin ap Dafydd	Gwobrau: £8, £6, £4
34.	Ymgom Bl 9 ac Iau: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £12, £7
35.	15-19 oed: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £20, £15, £10
36.	Dros 19 oed: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £20, £15, £10
37.	Sgets dros 15 oed: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £15, £10
38.	Adroddiad Digri dros 15 oed: Hunan Ddewisiad	Gwobrau: £20, £15, £10

39. **Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru**

Oedran 16-25: Cystadleuaeth Perfformio ' Mewn Cymeriad'

Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad.
Perfformiad hyd at 5 munud, wedi ei seilio ar ddewis o sgriptiau mewn cymeriad.
Dylai'r pwyslais fod ar greu perfformiad ysgafn, fydd yn profi gallu'r unigolyn i ryngweithio'n hwylus gyda'r gynulleidfa a chyfleu'r stori'n glir.
Caniateir gwisgoedd a props.
Bydd yr enillydd cenedlaethol yn derbyn gwahoddiad i ymuno a Chwmni Mewn Cymeriad maes o law ar gyfer gweithdy ymarferol i ddatblygu sgiliau ymhellach.
Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2024 a Mai 2025 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025 am wobrau o £150, £120 a £90.
Sgriptiau ar gael o Wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Dewis o sgriptiau: MARI JONES, KATE ROBERTS, DIC PENDERYN,OWAIN GLYNDŴR, CRANOGWEN

Gwobr: £50
(i'w rannu fel y dymunir gan y beirniaid ac un o swyddogion yr Eisteddfod

Llenyddiaeth a Barddoniaeth

Beirniad: Ffion Gwen Williams, Llannefydd

Dylid anfon yr holl gynnyrch llenyddol at yr Ysgrifennydd:

Elin Williams, Pen y Fron, Gwytherin, Abergele LL22 8US

Cynnyrch i law yr Ysgrifennydd erbyn : **Ebrill 13eg, 2025**

D.S : A fyddai'r holl gystadleuwyr yn anfon eu cynnyrch o dan ffugenw a chyflwyno eu gwir enw a'u cyfeiriad mewn amlen dan sêl gyda'u cynnyrch.

* *Os dymunwch dderbyn eich cynnyrch yn ôl bydd rhaid darparu amlen o faint addas wedi ei chyfeirio a'i stampio yn ddigonol i faint yr amlen a phwysau'r cynnyrch. Bydd cost postio yn cael ei dynnu o unrhyw wobr, lle bo'r angen.*

*Dymuniad y pwyllgor yw cyhoeddi'r gwaith buddugol ym mhapur bro'r Gadlas dros gyfnod o amser. Os **nad** ydych am i'r gwaith gael ei gyhoeddi a fyddech cystal â nodi hynny'n **glir** i'r ysgrifennydd wrth anfon y cynnyrch. Os na fyddwch wedi nodi - bydd eich gwaith yn cael ei gyhoeddi maes o law.*

41. Limrig: 'Un diwrnod aeth Carlo i hela' Gwobr: £3
42. Cân Ddigri: 'Pont' Gwobrau: £6, £3
43. Telyneg: 'Llanw' Gwobrau: £6, £3
44. Englyn: 'Storm' Gwobrau: £6, £3
46. Rhyddiaith Bl.2 ac iau: Ysgrifennu stori ar unrhyw thema Gwobrau £3, £2, £1
47. Rhyddiaith Bl.3-4: Ysgrifennu stori ar unrhyw thema Gwobrau £4, £3, £2
48. Rhyddiaith Bl.5-6: Ysgrifennu stori ar unrhyw thema Gwobrau £4, £3, £2
49. Dan 18 oed: Cyflwyno unrhyw waith ysgrifenedig a wnaed yn yr ysgol. Gwobrau: £6, £3

50. Dan 25 oed: Darn o waith creadigol heb fod yn hwy na 2000 o eiriau (drama, barddoniaeth, rhyddiaith, neu gyfuniad) Gwobrau: £25 (bydd gan y beirniad hawl i rannu'r wobr)

51. Agored: Ysgrif neu erthygl ar y thema 'Heb Amaeth, heb faeth'. Gwobrau: £6, £3

AMODAU

1. Bydd hawl gan unrhyw feirniad atal gwobr, a bydd gan y beirniad neu'r trysorydd yr hawl i ad-drefnu gwobrau os bydd cydradd.

2. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus, ond mewn ysgrifen daclus a'i roi i'r Ysgrifennydd. Bydd barn y beirniaid yn derfynol.

3. Caniateir UN YMGAIS YN UNIG ar gystadleuaeth offerynnol.

4. Disgwylir i ymgeiswyr ar y cystadlaethau 'Hunan Ddewisiad' ddarparu copi i'r beirniad a'r cyfeilydd lle bo angen cyfeilydd.

5. Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw niwed neu golled.

6. Rhaid darparu copi caled o bob ymgais lenyddol i'r ysgrifennydd.

7. Disgwylir i ymgeiswyr ar y cystadlaethau 'cerdd dant' ddarparu copi lle bo'n berthnasol a gwneud yn siŵr bod y cyfeilydd yn ymwybodol o'r cyweirnod cywir.

8. Disgwylir i'r cystadleuwyr ddarparu copi i'r beirniad a'r cyfeilydd.

9. Y cystadleuwyr i drafod y dewisiadau gyda'r cyfeilydd ychydig o ddyddiau cyn yr Eisteddfod (07713 695177/ 01654 710314).

10. Canieteir cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod yn <u>UNIG</u> ar gyfer pob cystadleuaeth ar wahan i'r cystadlaethau unwad sioe gerdd, offerynnol, partïon a chorau.

11. Ni chaiff y buddugol ar y Brif Unawd gystadlu ar yr Unawd Gymraeg.

12. Telerau arbennig i Gorau. Cysyllter â'r Ysgrifennydd erbyn Ebrill 14eg, 2025.

Arg: Hywel Evans